O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 2365 (Cy.193)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2009

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau").

Mae'r prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth fel bod pobl sydd naill ai'n cael budd-daliadau penodol oddi wrth y wladwriaeth neu sydd ar incwm isel yn cael peidio â thalu taliadau penodol neu gael ad-daliad ohonynt, a'r taliadau hynny fel arall yn daladwy o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ("taliadau GIG") a chael taliad am dreuliau teithio a dynnwyd wrth gael gwasanaethau GIG penodol ("treuliau teithio GIG").

Wrth gyfrifo adnoddau a gofynion person o dan y prif Reoliadau er mwyn canfod a yw'n cael hawlio hawl i beidio â thalu taliadau GIG ac i gael taliad am dreuliau teithio GIG, defnyddir fersiwn addasedig o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987 ("y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm").

Mae rheoliad 2 yn diweddaru'r cyfeiriad at y cyhoeddiad sy'n disgrifio benthyciadau ychwanegol a delir o dan Reoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Yr Alban) 2007. Mae'r benthyciadau hyn yn cael eu diystyru wrth gyfrifo incwm benthyciad i fyfyriwr pan fo hawl person i gael taliad am dreuliau teithio GIG ac i beidio â thalu taliadau GIG yn cael ei chadarnhau o dan y prif Reoliadau.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2009 Rhif 2365(Cy.193)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2009

Gwnaed	*2 Medi 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru	*3 Medi 2009*
Yn dod i rym	*28 Medi 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2009 a deuant i rym ar 28 Medi 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007(**2**); a

(b) ystyr "y Rheoliadau Cymhorthdal Incwm" ("*the Income Suport Regulations*") yw Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987(**3**).

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116); O.S. 2008/1480 (Cy.153) yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**3**) O.S. 1987/1967.

Addasu'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm yn Atodlen 1 i'r prif Reoliadau

2.—(1) Mae Atodlen 1 i'r prif Reoliadau (Addasu Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987) wedi'i diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Nhabl A, yn yr addasiadau sy'n ymwneud â rheoliad 66A o'r Rheoliadau Cymhorthdal Incwm (trin benthyciadau i fyfyrwyr) yn y cofnod cyntaf, yn lle "Guide to Student Support issued by the Student Awards Agency for Scotland 2007-2008" rhodder "Student Support Information Guide 2009-2010 issued by the Student Awards Agency for Scotland(**1**)".

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

2 Medi 2009

(**1**) Mae'r arweiniad hwn ar gael ar wefan Asiantaeth Dyfarniadau Myfyrwyr yr Alban yn www.saas.gov.uk.